

Rhif: WG31640



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Llywodraeth Cymru

Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymatebion

Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru - drafft

Gorffennaf 2018

Cynnwys

1	Cyflwyniad.....	Error! Bookmark not defined.
2	Ymgynghori ac ymgysylltu â rhanddeiliaid.....	Error! Bookmark not defined.
3	Ymatebion i'r ymgynghoriad	Error! Bookmark not defined.
4	Crynodeb o'r themâu allweddol	6
5	Dadansoddiad o'r ymatebion.....	8
6	Y camau nesaf	33
	Atodiad 1	34

1 Cyflwyniad

- 1.1 Mae moroedd Cymru yn bwysig i ni; mae gan Gymru tua 32,000 km² o fôr, yn ogystal â 21,000 km² o dir wedi'i amgylchynu gan 2,120 km o forlin. Mae ein harwynebedd morol yn fwy nag arwynebedd ein tir ac yn cynnwys adnoddau naturiol amrywiol a gwerthfawr.
- 1.2 Mae ein moroedd yn dod yn fwyfwy gorlawn, gan greu cystadleuaeth am le a'r defnydd o'n hadnoddau naturiol. Rydym yn cydnabod pwysigrwydd ein hadnoddau naturiol morol a'r ffaith bod ecosystemau morol iach a chydnerth yn tanategu ein heconomi, ein hiechyd a'n llesiant a'u bod yn bwysig i'n diwylliant. Rydym yn ymrwymedig i reoli ein moroedd mewn modd mwy integredig sydd wedi'i gynllunio'n well i sicrhau eu cynaliadwyedd yn yr hirdymor. Bydd hyn yn golygu gwneud pethau'n wahanol gan gynnwys cyflwyno dull rheoli morol blaengar, rhagweithiol a gofodol.
- 1.3 Mae Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009 yn nodi'r sylfaen statudol ar gyfer system newydd seiliedig ar gynllun i wneud penderfyniadau ynghylch gweithgareddau morol ledled y DU. Gweinidogion Cymru yw'r awdurdod cynllunio ar gyfer ardaloedd glannau a môr mawr Cymru.
- 1.4 Mae cynllunio morol yn darparu fframwaith cyffredinol ar gyfer rheoli moroedd Cymru, gan helpu i sicrhau bod adnoddau naturiol morol yn cael eu rheoli a'u defnyddio mewn ffordd gynaliadwy a thrwy hynny gyfrannu at gyflawni nodau Cymru ar gyfer llesiant cenedlaethau'r dyfodol a nodwyd yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru). Drwy ddull sy'n integredig ac yn seiliedig ar gynllun, bydd cynllunio morol yn gwneud cyfraniad pwysig tuag at wireddu ein gweledigaeth ar gyfer ein moroedd. Bydd gweithredu prosesau cynllunio morol yn helpu i hwyluso rheolaeth a defnydd mwy effeithiol ar adnoddau morol drwy greu'r fframwaith ar gyfer gwneud penderfyniadau mewn modd cyson, cynaliadwy a seiliedig ar dystiolaeth. Mae'n galluogi Llywodraethau i bennu cyfeiriad eglur ar gyfer rheoli ein moroedd, i egluro amcanion a blaenoriaethau, ac i gyfeirio penderfynwyr, defnyddwyr a rhanddeiliaid tuag at ddefnydd mwy strategol ac effeithlon o adnoddau morol.

2 Ymgynghori ac ymgysylltu â rhanddeiliaid

2.1 Lansiodd ymgynghoriad 16 wythnos Llywodraeth Cymru ar y drafft o Gynllun Morol Cenedlaethol Cymru (dCMCC) ar 7 Rhagfyr 2017 a daeth i ben ar 29 Mawrth 2018. Cyhoeddwyd yr ymgynghoriad drwy ddulliau electronig gan ei anfon at rhanddeiliaid o lawer math a threfnwyd iddo fod ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru.

2.2 Roedd yr ymgynghoriad hwn yn adeiladu ar ymgynghoriadau ac ymgysylltu cysylltiedig blaenorol rhwng Tachwedd 2015 ac Ionawr 2016, ar y:

- Datganiad o gyfranogiad y cyhoedd ar gyfer cynllunio morol
- Gweledigaeth ac Amcanion Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru
- Y sylfaen dystiolaeth (Ymarfer Cwmpasu Strategol)
- Cwmpasu'r Arfarniad o Gynaliadwyedd/Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd ar gyfer y cynllun
- Drafft cychwynnol o Gynllun Morol Cenedlaethol Cymru.

2.3 Yn Ionawr 2017, roeddem wedi diweddarau ein Datganiad o Gyfranogiad y Cyhoedd¹ ac wedi cadarnhau'r bwriad i baratoi cynllun drafft ar gyfer ymgynghori o fewn y flwyddyn. Mae'r datganiad yn egluro sut mae partïon sydd â buddiant yn gallu cymryd rhan yn y broses cynllunio morol.

2.4 Mae'r dCMCC rydym wedi ymgynghori arno wedi cael ei ddiwygio mewn ymateb i'r sylwadau a gafwyd o'r ymgynghoriadau cynharach hyn ac o ddeialog ragweithiol â phartïon allweddol sydd â buddiant. Mae'n ymdrin â dyfroedd glannau (hyd at 12 milltir forol) a dyfroedd môr mawr (y tu hwnt i 12 milltir forol) Cymru mewn un ddogfen. O ran y tir, mae'r cynllun hwn yn ymestyn hyd at gymedr penllanw'r gorllanw. Mae'n gymwys i swyddogaethau a gadwyd a rhai datganoledig a gaiff eu harfer yn yr ardal hon.

2.5 Roedd nifer o ddogfennau ategol gyda dCMCC a'r ddogfen ymgynghori, yn cynnwys:

- Trosolwg o Gynllun Morol Cenedlaethol Cymru sy'n datblygu
- Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd
- Arfarniad o Gynaliadwyedd
- Adolygiad o Bolisi ar Garthu Agregau Morol dros dro.

2.6 Mae'r ddogfen ymgynghori lawn, dCMCC a'r dogfennau cysylltiedig ar gael [yma](#).

2.7 Roedd yr ymgynghoriad yn gofyn am sylwadau am gynllun morol drafft gorffenedig ar gyfer ardaloedd glannau a môr mawr Cymru a oedd wedi'i ddatblygu o dan Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir (2009).

¹ <https://gov.wales/topics/environmentcountryside/marineandfisheries/marine-planning/engagement-and-consultation/?lang=cy>

2.8 Ar gyfer yr ymgynghoriad, diweddarwyd y porth cynllunio morol² i ganiatáu i ddefnyddwyr weld cynigion ar bolisi gofodol a'u hystyried ochr yn ochr â thystiolaeth ofodol am ddsbarthiad adnoddau naturiol a'r defnydd ohonynt ar draws moroedd Cymru.

2.9 Cafwyd ymgysylltu â rhanddeiliaid ar gyfer yr ymgynghoriad drwy sesiynau galw heibio lleol, trafodaethau o bob math mewn cyfarfodydd a chynhadledd genedlaethol:

Dyddiad	Lleoliad	Digwyddiad
10 Ionawr 2018	Abertawe	Galw heibio dCMCC (14:00 – 20:00)
11 Ionawr 2018	Saundersfoot	Galw heibio dCMCC (14:00 – 20:00)
24 Ionawr 2018	Bangor	Galw heibio dCMCC (14:00 – 20:00)
25 Ionawr 2018	Aberystwyth	Galw heibio dCMCC (14:00 – 20:00)
26 Ionawr 2018	Y Fflint	Galw heibio dCMCC (14:00 – 20:00)
30 Ionawr 2018	Caerdydd	Galw heibio dCMCC (14:00 – 20:00)
20 Chwefror 2018	Caerdydd	Cynhadledd Genedlaethol dCMCC

2.10 Yn ystod y digwyddiadau lleol a chenedlaethol, roedd cyfle i randdeiliaid ofyn cwestiynau, mynegi eu barn, tynnu sylw at eu pryderon a chael trafodaeth agored ar yr heriau a'r cyfleoedd nesaf i gynllunio morol yng Nghymru.

2.11 Roedd y porth cynllunio morol ar gael yn y sesiynau hyn ac fe'i defnyddiwyd i ddangos dosbarthiad gweithgareddau dynol ac adnoddau naturiol ym moroedd Cymru. Mae'r porth yn offeryn cynllunio rhyngweithiol sydd wedi'i fwriadu i hyrwyddo'r broses cynllunio morol drwy:

- Hybu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r data morol sydd ar gael am foroedd Cymru;
- Rhoi dealltwriaeth o'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer cynllunio morol sydd ar gael ar hyn o bryd;
- Rhoi cyfle i bartion cysylltiedig wneud sylwadau am y sylfaen dystiolaeth a thystiolaeth ofodol ychwanegol sydd ei hangen neu sydd ar gael.

2.12 Yn ystod cyfnod yr ymgynghoriad, roedd Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig wedi arwain dadl yn y Senedd am dCMCC ar 9 Ionawr 2018. Mae'r cofnod o'r ddadl hon ar gael [yma](#).

2.13 Cymerodd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig dystiolaeth ar gynllunio morol ar 1 Chwefror 2018 ac ar 14 Mawrth 2018 cynhaliodd y Pwyllgor weithdy i randdeiliaid i drafod dCMCC. Gwnaeth y Pwyllgor 13 o argymhellion³ ar dCMCC yn Ebrill 2018 ac mae'r Ysgrifennydd Cabinet wedi ymateb i'r rhain⁴.

² <http://lle.gov.wales/apps/marineportal/?lang=cy#lat=52.5145&lon=-3.9111&z=8>

³ <http://www.assembly.wales/laid%20documents/cr-ld11543/cr-ld11543-w.pdf>

⁴ <http://www.assembly.wales/laid%20documents/gen-ld11609/gen-ld11609-w.pdf>

2.14 Mae'r holl adborth ac ymatebion mewn perthynas â'r ymgynghoriad hwn yn ffynhonnell werthfawr o wybodaeth a syniadau a bydd Llywodraeth Cymru yn gwneud defnydd ohonynt wrth ddatblygu cynllunio morol ymhellach yng Nghymru.

3 Ymatebion i'r ymgynghoriad

3.1 Hoffai Llywodraeth Cymru ddiolch i bawb a ddaeth i'r cyfarfodydd cyhoeddus, a ddarparodd adborth ac a ymatebodd i'r ymgynghoriad am roi o'u hamser ac am eu cyfraniadau yn ystod cyfnod yr ymgynghoriad. Diolch yn benodol i aelodau'r sefydliadau sy'n rhan o'r Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid Cynllunio Morol am roi'n barod o'u hamser a rhannu eu gwybodaeth. Mae rhestr o'r sefydliadau sydd wedi ymateb i'r ymgynghoriad yn Atodiad 1.

3.2 Cofnodwyd cyfanswm o 86 o ymatebion i'r ymgynghoriad.

3.3 Cafwyd ymatebion gan y sectorau canlynol a oedd yn cynnwys buddiannau amgylcheddol, cymdeithasol, economaidd a diwylliannol:

- Cyrff academiaidd
- Busnesau
- Llywodraeth / y Sector Cyhoeddus
- Hamdden a Thwristiaeth
- Awdurdodau Lleol, Cynghorau Tref a Chymuned
- Aelodau o'r Cyhoedd
- Cyrff a Chymdeithasau Proffesiynol
- Sefydliadau cynrychiadol a lleol / Fforymau
- Y Trydydd Sector.

3.4 Roedd yr ymgynghoriad yn cynnwys darpariaeth ar gyfer cyflwyno ymatebion yn ddiennw, heb eu cysylltu â rhanbarth neu leoliad daearyddol o fewn y DU. Er ei bod yn ymddangos bod y rhan fwyaf o'r rheini a oedd wedi cynnwys eu lleoliad daearyddol yn rhai o Gymru (wedi'u cyflwyno drwy sefydliad neu gan unigolyn), roeddem wedi cael sylwadau gan yr awdurdodau cynllunio eraill yn y DU.

3.5 Gofynnwyd 17 o gwestiynau yn yr ymgynghoriad ar dCMCC ac ar yr Arfarniad o Gynaliadwyedd a'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd a oedd yn ei ategu. Mae'r crynodeb hwn o'r ymatebion yn ymdrin yn bennaf â'r ymatebion i gwestiynau 1 – 16 (gweler adran 5).

3.6 Roedd Cwestiwn 17⁵ yn gofyn am unrhyw sylwadau ychwanegol roedd yr ymatebwyr am eu gwneud am dCMCC. Lle'r oedd modd gwneud hynny, mae'r sylwadau hyn wedi'u crynhoi a'u hintegreiddio â'r themâu sy'n gysylltiedig â

⁵ Cwestiwn 17 - Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau cyffredinol, ond a oes unrhyw sylwadau eraill yr hoffech eu gwneud am Gynllun Morol Cenedlaethol Cymru?

chwestiynau 1 i 16. Fodd bynnag, oherwydd natur a chynnwys penodol nifer o'r ymatebion i Gwestiwn 17, roedd yn anodd eu cyfleu'n briodol mewn dogfen grynodedb. Mae holl gynnwys yr ymatebion i'r ymgynghoriad (yn cynnwys yr ymatebion i Gwestiwn 17) yn cael ei ystyried drwy'r gwaith manwl y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud (gan gydweithio â rhanddeiliaid) i adolygu a diwygio dCMCC.

4 Crynodeb o'r themâu allweddol

- 4.1 Mae'r ymgynghoriad wedi codi nifer o ystyriaethau gwahanol a gellir nodi nifer o themâu allweddol ar eu sail. Darparwyd rhagor o fanylion yn y crynodeb o'r ymatebion i bob cwestiwn, fel y nodir isod:
- 4.2 **Datblygu cynaliadwy** – roedd ymatebwyr yn croesawu'r ffocws yn y cynllun sy'n unol â'r darpariaethau ar gyfer cynllunio morol a nodwyd yn Neddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir a Datganiad Polisi Morol y DU. Er hynny, roedd rhai wedi dweud bod diffyg cydbwysedd o bosibl ym mlaenoriaethau'r cynllun mewn perthynas â thair colofn cynaliadwyedd (yr amgylchedd, cymdeithas a'r economi). Byddwn yn gweithio gyda rhanddeiliaid i sicrhau bod y cynllun yn darparu fframwaith priodol ar gyfer defnyddio a datblygu adnoddau morol mewn ffordd gynaliadwy (er mwyn sicrhau cydbwysedd priodol rhwng buddiannau amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd).
- 4.3 **Ardaloedd Adnoddau Strategol (darparu cyfarwyddiadau gofodol)** – roedd ymatebwyr yn croesawu'r cysyniad at ei gilydd. Er hynny, roedd nifer wedi gwneud sylw am yr angen am fwy o eglurder ynghylch eu cymhwyso'n ymarferol wrth wneud penderfyniadau ac na ddylent arwain yn anfwriadol at danseilio bioamrywiaeth forol yn cynnwys hynny mewn Ardaloedd Morol Gwarchoddedig. Byddwn yn parhau i weithio gyda rhanddeiliaid i fireinio'r cysyniad o Ardaloedd Adnoddau Strategol a'r sylfaen dystiolaeth ar eu cyfer.
- 4.4 **Rheoli trawsffiniol** – roedd ymatebwyr yn croesawu'r ffocws yn y cynllun ac wedi nodi'r heriau sy'n codi am fod cynlluniau morol yn y DU ac Iwerddon ar wahanol gamau yn eu datblygiad. Fodd bynnag, mae rhai wedi gofyn am ddull mwy tryloyw / cydgysylltiedig, yn enwedig yn y dyfroedd a rennir yn aberoedd Hafren a Dyfrdwy. Rydym yn ymrwymedig i weithio a chydweithredu trawsffiniol a byddwn yn parhau i gydweithio'n agos ag awdurdodau cynllunio morol eraill.
- 4.5 **Tystiolaeth ar gyfer cynllunio** – roedd hon yn thema a gododd droeon yn sylwadau'r ymatebwyr a oedd yn nodi pa mor bwysig oedd dystiolaeth ar gyfer penderfyniadau ar reoli adnoddau mewn ffordd gynaliadwy. Rydym wedi ymrwymo i gynnal sylfaen dystiolaeth briodol ar gyfer cynllunio morol yng Nghymru.

- 4.6 **Strwythur cyffredinol y cynllun** – roedd ymatebwyr yn croesawu fformat dCMCC gan mwyaf. Er hynny, roedd nifer wedi gwneud sylw am hyd y cynllun, cymhlethdod y materion a ddisgrifiwyd a'r angen i ddiffinio termau'n gliriach. Byddwn yn gweithio gyda rhanddeiliaid i fireinio CMCC cyn ei fabwysiadu i'w wneud yn fyrrach ac yn fwy eglur.
- 4.7 **Monitro, gwerthuso ac adrodd** – nododd ymatebwyr yr ymrwymiad i gyhoeddi adroddiadau'n disgrifio'r defnydd o CMCC a'i effeithiolrwydd. Fodd bynnag, mae rhai wedi gwneud sylw am yr angen i ddatblygu'r dulliau gweithredu hyn mewn ffordd sy'n dryloyw ac yn cydweddu â'r dulliau mewn awdurdodau cynllunio morol cyfagos. Byddwn yn gweithio gyda rhanddeiliaid ar gamau pellach i ddatblygu ein dulliau o fonitro, gwerthuso ac adrodd ar ein cynllun morol.
- 4.8 **Mapiau a data** – roedd ymatebwyr yn croesawu'r defnydd o wybodaeth wedi'i mapio yn ogystal â'r cynnwys a'r offer ym Mhorth Cynllunio Morol Cymru. Er hynny, cafwyd sylwadau gan rai am eglurder a chynnwys y ffigurau ac awgrymwyd cyfleoedd i alinio pyrth cynllunio gweinyddiaethau'r DU a setiau data ychwanegol i'w cynnwys. Byddwn yn parhau i fireinio a diweddarau Porth Cynllunio Morol Cymru.
- 4.9 **Yr Arfarniad o Gynaliadwyedd / Yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd** – roedd y rhain wedi ysgogi nifer mawr o sylwadau gan ymatebwyr. Er bod cefnogaeth i'r dull yn gyffredinol, cafwyd nifer o ymholiadau ac awgrymiadau penodol am ddiwygiadau. Byddwn yn adolygu'r Arfarniad o Gynaliadwyedd a'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd i roi sylw i'r sylwadau hyn ac yn ystyried y rhain wrth ailddrafftio CMCC.

5 Dadansoddiad o'r ymatebion


- 5.1 Mae'r bennod sy'n dilyn yn cyflwyno dadansoddiad o'r ymatebion i bob un o'r cwestiynau. Roedd cwestiynau'r ymgynghoriad yn cynnig yr opsiwn i ymatebwyr ddewis eu barn. Mae'r ymatebion hyn wedi'u cyflwyno mewn tabl sy'n dangos a yw'r ymatebydd wedi ateb yn gadarnhaol neu'n negyddol neu wedi cytuno'n gryf/cytuno/anghytuno/anghytuno'n gryf. Roedd rhai ymatebwyr wedi darparu sylwadau ond wedi peidio â dewis categori barn penodol; cofnodwyd y rhain yn ymatebwyr a oedd 'heb nodi barn derfynol'.
- 5.2 Mae'r tabl yn rhoi crynodeb o'r asesiad meintiol syml o ymatebion. Dylid nodi nad yw hyn yn adlewyrchu cyfanswm nifer yr ymatebwyr. Mae wedi'i seilio, yn hytrach, ar nifer yr ymatebwyr a atebodd y cwestiwn yn uniongyrchol.
- 5.3 Mewn rhai o'r cwestiynau a ofynnwyd, holwyd a oedd yr ymatebydd yn cytuno â'r dull o weithredu neu'n dymuno gwneud sylwadau. O ganlyniad i hyn, roedd pobl a oedd yn aml yn cytuno â'r cynllun wedi ticio'r blwch "Nac ydw" neu "Ydw" a "Nac ydw" am eu bod yn dymuno ychwanegu sylw, ac roedd hyn wedi creu bias negyddol. Mae enghraifft o hyn yn y sylw isod:

"the tick boxes are quite difficult to make a judgement about, because if we added a comment against a question we would have to disagree that the text in the draft was not adequate. I apologise if, just in terms of pure statistically counting of 'disagrees' we have added to an apparent negative response to the document, when in truth [enw'r sefydliad] welcomes and supports the introduction of the Welsh Marine Plan."

- 5.4 Roedd rhai ymatebion yn cynnwys pynciau eraill y tu allan i gwmpas y cwestiwn a ofynnwyd, ac roedd yr holl gwestiynau yn gofyn i ymatebwyr ymhelaethu ar eu barn. Mae'r barnau hyn wedi'u cynnwys yn y penodau sy'n dilyn lle bynnag roedd modd, felly mae rhan helaeth o'r dadansoddiad canlynol yn ansoddol.

Cwestiwn 1 - Ydych chi'n cytuno â gweledigaeth ac amcanion Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru?

Crynodeb o'r ymatebion lle'r oedd opsiynau wedi'u dewis a'r ymatebion nad oeddent yn nodi opsiwn penodol.		
Opsiynau	Nifer yr ymatebwyr	Canran
Cytuno'n gryf	10	20%
Cytuno	32	64%
Anghytuno	8	16%
Anghytuno'n gryf	0	0%



Roedd 36 o ymatebwyr ychwanegol heb nodi barn derfynol.

Yn gyffredinol, roedd cefnogaeth eang, dda i'r weledigaeth ac amcanion a nodwyd yn y cynllun drafft. Roedd ymatebwyr yn teimlo'n gadarnhaol bod y weledigaeth yn adlewyrchu gweledigaeth gytûn y DU ar gyfer moroedd a chefnforoedd glân, iach, diogel, cynhyrchiol a biolegol amrywiol a nodwyd yn Natganiad Polisi Morol y DU⁶. Roedd rhai pryderon ynghylch cydbwysedd y polisiau yn y cynllun ac awgrym bod gormod o bwyslais ar dwf economaidd.

Roedd y sylwadau canlynol yn adlewyrchu'r safbwyntiau a gyflwynwyd mewn perthynas â'r weledigaeth yn dCMCC:

"We very much welcome the vision and objectives of the WNMP reflecting the fact that blue growth and sustainable development represent core components of marine planning and management, to be considered alongside environmental protection and nature conservation."

"We agree with the 20-year vision, which sets out, in the context of the wider vision for UK Seas, the range of important considerations and priorities for Welsh waters. We consider that this vision, which supports the need to take a long-term approach to managing our seas, provides useful clarity at a time of some uncertainty and change as we approach withdrawal from the European Union."

"The 20-year plan period provides a platform for a long-term ambition, including making Welsh seas and the coast more relevant to the aspirations and wellbeing of the people of Wales and future generations. There is an opportunity to develop a vision alongside that of the National Development Framework so that there is a coherent and ambitious vision for all of Wales."

"The vision is good and the recognition that blue growth and environmental protection are both critical to marine management is welcome and creates a clear direction for industry and conservation."

"We are not convinced that the term "Blue Growth" is particularly helpful as it covers disparate industries some of which are well-established whilst others are at an early stage."

Yn fyr:

- Roedd cydnabyddiaeth gyffredinol bod y Weledigaeth yn briodol ac yn addas i'w diben.
- Ymateb cyffredin oedd bod angen diffinio'r term "Twf Glas" yn well a'i gymhwyso'n gyson ar draws Llywodraeth Cymru. Cafwyd awgrym y dylid egluro mai ystyr "Twf Glas" yw sicrhau datblygu cynaliadwy yn unol ag egwyddorion Economi Las Gynaliadwy. Roedd cefnogaeth gyffredinol i'r defnydd o'r term "Twf Glas" ymysg cynrychiolwyr y sectorau.

⁶ <https://www.gov.uk/government/publications/uk-marine-policy-statement>

- Roedd nifer o'r farn nad yw'r weledigaeth yn cydnabod bod yr amgylchedd morol wedi dirywio ac y dylid cydnabod hyn yn glir ac roedd awgrym bod angen rhoi mwy o sylw i'r angen am ddiogelu ac adfer bioamrywiaeth.
- Yn unol â thargedau Cymru ar gyfer sicrhau Statws Amgylcheddol Da i foroedd Cymru, awgrymwyd tynnu sylw'n benodol at hyn yn y weledigaeth.

Roedd y sylwadau canlynol yn adlewyrchu barn ymatebwyr am amcanion dCMCC

"... the vision and objectives provide a good balance across all interests and activities in the marine environment, and are future-proofed for the lifetime of the plan"

"We consider that the plan successfully seeks to translate the UK's shared vision and High Level Marine Objectives (HLMOs) into a Welsh context, and will help to provide clarity to marine users, developers and regulators of what seas around Wales will look like in 20-years' time and how to achieve this."

"It is understood that the Plan objectives have been lined up with the UK High Level Marine Objectives (HLMO) and this approach is supported. The strategic nature of the objectives is noted."

Yn fyr:

- Cafwyd cydnabyddiaeth gyffredinol bod yr amcanion yn briodol a'u bod yn ategu Amcanion Morol Lefel Uchel y DU.
- Awgrymodd un ymatebydd fod lle i symleiddio iaith yr amcanion a'u canolbwyntio i fwy o raddau ar y canlyniad arfaethedig. Mewn perthynas â hyn, codwyd rhai cwestiynau ynghylch a oedd yr amcanion yn rhai 'CAMPUS'.
- Cafwyd nifer o awgrymiadau manwl am fireinio un neu ragor o'r amcanion penodol, ac roedd y rhan fwyaf o'r sylwadau'n ymwneud ag Amcanion 1, 3, 6, 8 a 9, er enghraifft:


"Objective 3 should explicitly reflect the other interests and natural resources such as landscape/seascape, for example by reference to an enhanced Objective 6"

"Objective 6 could be enhanced to embrace the concept of "National Seascapes" comparable to terrestrial National Parks and Areas of Outstanding Natural Beauty (AONBs)."

Gyda golwg ar y sylwadau a gafwyd, rydym yn bwriadu cadw'r weledigaeth a'r amcanion fel y maent yn y drafft ar gyfer ymgynghori ond byddwn yn gweithio gyda rhanddeiliaid i gytuno ar gyfleoedd i fireinio rhai o fanylion yr amcanion wrth i ni ganolbwyntio ar gwblhau testun y cynllun. Byddwn yn manteisio ar y cyfle i egluro ystyr twf glas.

Cwestiwn 2 - Ydych chi'n cytuno bod y cynllun drafft, ei amcanion a'i bolisiâu yn darparu fframwaith ar gyfer datblygiad cynaliadwy ardal cynllun morol Cymru? Os nad ydych, sut y gellir eu diwygio neu eu gwella?

Crynodeb o'r ymatebion lle'r oedd opsiynau wedi'u dewis a'r ymatebion nad oeddent yn nodi opsiwn penodol.		
Opsiynau	Nifer yr ymatebwyr	Canran
Cytuno'n gryf	8	15.7%
Cytuno	31	60.8%
Anghytuno	10	19.6%
Anghytuno'n gryf	2	3.9%
Roedd 36 o ymatebwyr ychwanegol heb nodi barn derfynol.		



Mae'r sylwadau ac enghreifftiau canlynol yn adlewyrchu'r safbwyntiau a fynegwyd gan ymatebwyr mewn perthynas ag a yw'r cynllun drafft, ei amcanion a'i bolisiâu'n darparu fframwaith ar gyfer datblygu ardal cynllun morol Cymru mewn ffordd gynaliadwy:

Yn fyr:


- Yn gyffredinol, roedd mwyafrif yr ymatebwyr yn cefnogi'r dull a nodwyd yn y cynllun o ran bod y drafft yn darparu fframwaith ar gyfer datblygu ardal cynllun morol Cymru mewn ffordd gynaliadwy. Er enghraifft, dywedodd un ymatebydd ei fod yn gefnogol iawn i *“the framework set out by this first plan and consider its policies cover the breadth of considerations necessary to support Sustainable Development of our seas in line with the requirements set out in the Marine and Coastal Access Act and UK Marine Policy Statement.”*
- Fodd bynnag, roedd nifer o ymatebwyr, sefydliadau yn y trydydd sector yn bennaf, nad oeddent yn credu bod y cynllun drafft yn sicrhau cydbwysedd digonol rhwng colofnau cynaliadwyedd a'i fod yn rhy gefnogol i dwf economaidd.
- Barn gyffredin ymhlith sefydliadau amgylcheddol yn y trydydd sector oedd bod diffyg cydlyniant rhwng amcanion y cynllun a bod angen cymhwyso gofynion Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn fwy pendant ym mhob rhan o'r cynllun. Er enghraifft, dywedodd un ymatebydd *“We are concerned that the Plan will not result in the Sustainable Management of Natural Resources, despite it being identified as a key way in which SMNR shall be delivered in the marine environment within the Natural Resources Policy.”*

- Roedd sefydliadau amgylcheddol yn y trydydd sector wedi mynegi pryderon ynghylch y gefnogaeth i dwf economaidd ac nad oedd terfynau wedi'u gosod yn y cynllun. Barn un ymatebydd oedd “... *economic development is prioritised above SMNR and that new legislative requirements have not been brought into the new Plan-led system appropriately.*” Dywedodd ymatebydd arall “*The draft Plan does not provide a framework for the sustainable development of the marine area, because through its sectoral policies and Strategic Resource Areas (SRAs) it appears to prioritise economic growth over other pillars of sustainable development – in particular the environmental pillar.*”
- Mewn nifer o sylwadau, nodwyd bod angen rhoi pwyslais ar y cyfyngiadau presennol mewn deddfwriaeth, e.e. lle dynodwyd safleoedd o bwysigrwydd yn yr UE neu'r DU, mae'r fframwaith cyfreithiol cysylltiedig yn gosod gweithdrefnau caeth ar gyfer penderfynu ar gynigion (ar eu pen eu hunain neu ar y cyd) a all gael effaith arwyddocaol debygol. Y rhain yw'r mesurau y bydd angen i bolisiau ar gyfer cefnogi a diogelu sectorau gydymffurfio â nhw (ynghyd â'r polisiau eraill yn y cynllun).
- Roedd sylwadau eraill yn fwy cefnogol i'r dull o ddatblygu cynaliadwy a ddisgrifiwyd yn y drafft. Er enghraifft, yr awgrym gan un ymatebydd oedd “*It is likely that there will be an initial period of 'bedding in' once the plan has been implemented, however, we are confident that the plan will provide the overarching framework required to support decision making.*”
- Cwestiwn a oedd ymhlyg yn sylwadau nifer o'r ymatebwyr oedd sut byddai'r cynllun yn cymhwyso'r dull rheoli ar lefel yr ecosystem, o ran sicrhau cydbwysedd priodol rhwng buddiannau amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd. Nododd yr ymatebwyr ei bod yn bwysig cael tystiolaeth ar gyfer rheoli adnoddau'n gynaliadwy a bod angen cynnal sylfaen dystiolaeth briodol ar gyfer gwneud penderfyniadau.
- Cyfeiriodd nifer o ymatebwyr at bynciau a thystiolaeth a oedd heb eu cynnwys, a oedd yn annigonol neu wedi'u disodli yn y cynllun drafft ac Adroddiad Tystiolaeth Morol Cymru (2015). Mae'r rhain yn cael eu casglu drwy raglen waith gyfredol a byddant yn cyfrannu at fersiynau o'r cynllun yn y dyfodol.

Gan fod cefnogaeth gyffredinol i'r dull o weithredu, rydym yn bwriadu cadw'r strwythur a dull gweithredu cyffredinol sydd yn y cynllun drafft. Gan adlewyrchu rhai o'r sylwadau ac awgrymiadau am welliannau, byddwn yn gweithio gyda rhanddeiliaid i sicrhau bod y cynllun yn darparu fframwaith priodol ar gyfer datblygu'r ardal forol yn gynaliadwy (er mwyn cael cydbwysedd priodol rhwng buddiannau amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd) gan ei gwneud yn glir, yn benodol, fod y polisiau Cyffredinol trawsbynciol yn gymwys i bolisiau'r holl sectorau.

Cwestiwn 3 - Ydych chi'n cytuno bod Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru yn darparu gwybodaeth ac arweiniad eglur i roi cymorth i wneud penderfyniadau? Os nad ydych, sut y gellir ei wella?

Crynodeb o'r ymatebion lle'r oedd opsiynau wedi'u dewis a'r ymatebion nad oeddent yn nodi opsiwn penodol.		
Opsiynau	Nifer yr ymatebwyr	Canran
Cytuno'n gryf	4	8.7%
Cytuno	21	45.65%
Anghytuno	17	36.95%
Anghytuno'n gryf	4	8.7%
Roedd 41 o ymatebwyr ychwanegol heb nodi barn derfynol.		



Mynegwyd barn amrywiol am eglurder y wybodaeth a'r arweiniad a roddir yn y cynllun i helpu i wneud penderfyniadau. Roedd rhai ymatebwyr wedi cynnig awgrymiadau am ffyrdd i wella'r cynnwys.

Mae'r sylwadau canlynol yn adlewyrchu'r farn am y graddau y mae dCMCC yn darparu gwybodaeth ac arweiniad clir i helpu i wneud penderfyniadau:

"In general large-scale developers should find the plan helpful and reassuring."

"The WNMP provides a starting point to help shape decision making, but ... there are likely to be some practical issues that need to be worked out."

"... there are limitations within WNMP around the provision of guidance and it is sensible to ensure that the plan does not get too lengthy and risks losing its focus around its objectives and policies. However, we do feel that additional guidance will be required to support decision makers and the WNMP should provide appropriate signposting to this information."

"... for most of the plan policies, there is some useful guidance within the draft plan to clarify the intent of the policies... Clarifying the intent of individual policies is critical in this first draft plan, and providing definitions in support of each policy wording will ensure consistent interpretation and reduce dispute over policy interpretation ... In addition, we seek clarity over where a Public Authority can seek advice to support assessment of compliance"

"We acknowledge that the plan cannot reasonably include all the implementation guidance that will ultimately be required. It is critical that the Planning Authority"

therefore provides clear initial guidance and ongoing support to Public Authorities to ensure that the requirements to demonstrate compliance with the plan can be easily followed by regulators, advisors and applicants. “

“We do not agree that the Plan provides clear information and guidance to support decision making; that it provides a clear approach to ensuring policies are applied to proposals on a proportionate basis; or that the general policy implementation guidance is fit for purpose.”


Yn fyr:

- Er bod nifer o'r farn bod y wybodaeth ac arweiniad yn y cynllun drafft yn ddigon eglur, barn gyffredin oedd y byddai angen darparu rhagor o wybodaeth, cymorth ac arweiniad dros amser er mwyn rhoi'r cynllun ar waith.
- Roedd nifer o ymatebwyr wedi tynnu sylw at y ffaith bod yr is-grŵp ar weithredu i Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid Cynllunio Morol Llywodraeth Cymru wedi gwneud argymhellion pendant a oedd yn ymwneud â'r angen am arweiniad digonol ar gyfer gweithredu.
- Roedd rhai o'r ymatebwyr yn teimlo'n gryf iawn nad oedd digon o eglurder yn y cynllun drwyddo draw i helpu i wneud penderfyniadau; mynegwyd y farn hon gryfaf gan sefydliadau'r trydydd sector.
- Barn gyffredin oedd bod angen rhoi rhagor o ystyriaeth i adran diffiniadau'r cynllun drafft a bod angen i derminoleg y polisïau fod yn fwy penodol a chyson.
- Barn gyffredin arall oedd bod y cynllun yn rhy hir a bod angen manteisio ar gyfleoedd i symud deunydd i atodiadau neu i ganllawiau ategol ar weithredu y tu allan i'r cynllun ei hun. Roedd rhai ymatebwyr wedi awgrymu tynnu deunydd rhagarweiniol am y cyd-destun ac unrhyw ailadrodd ar statudau presennol.
- Roedd ymatebwyr eraill wedi awgrymu cyfleoedd i'w wneud yn fwy eglur drwy wneud newidiadau penodol yn nhestun y drafft neu drwy ddarparu canllawiau ychwanegol.

Gyda golwg ar y sylwadau a gafwyd, rydym yn credu ei bod yn bwysig byrhau'r cynllun a'i wneud yn fwy eglur. Byddwn yn gweithio gyda rhanddeiliaid i gytuno ar y deunydd craidd sydd i'w gadw yn y cynllun ac unrhyw ddeunydd y gellir ei ddarparu i helpu i weithredu'r cynllun. Byddwn yn manteisio ar gyfleoedd i wneud polisïau'n fwy eglur a sicrhau bod termau'n gyson.

Cwestiwn 4 - Ydych chi'n cytuno ein bod ni wedi adnabod yr holl feysydd polisi cyffredinol perthnasol a bod y rhain yn addas ar gyfer y diben i wireddu Gweledigaeth a chyflawni Amcanion y cynllun? Os nad ydych, rhowch fanylion am eich rhesymau isod.

Crynodeb o'r ymatebion lle'r oedd opsiynau wedi'u dewis a'r ymatebion nad oeddent yn nodi opsiwn penodol.		
Opsiynau	Nifer yr ymatebwyr	Canran
Cytuno'n gryf	2	4.9%
Cytuno	28	68.3%
Anghytuno	8	19.5%
Anghytuno'n gryf	3	7.3%
Roedd 46 o ymatebwyr ychwanegol heb nodi barn derfynol.		



Roedd y sylwadau canlynol yn adlewyrchu'r sylwadau a gyflwynwyd gan ymatebwyr am dCMCC:

"We agree that the main policy areas are covered. However, further thought might be given to how the Marine Plan relates to / overlaps with the emerging National Development Framework."

"The policies are good and very welcome, but as with so much of these strategic objectives and policies, the mechanisms for delivery will still need work"

"The general policy areas mentioned are Economy, Social, Environment and Governance. See response in paragraph 9 regarding the omission of 'cultural'. Several of the policies under Social (Historic Assets; Designated Landscape and Welsh Language and culture) relate to Cultural policy."


"We do not consider there are any significant gaps in the general policies within the plan and agree that they are broadly fit for purpose in delivering against the plan Vision and Objectives."

Yn fyr, roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cydnabod yn gyffredinol fod y meysydd polisi allweddol wedi'u cynnwys yn y cynllun drafft.

Nid ydym yn cynnig ychwanegu unrhyw feysydd polisi cyffredinol at y cynllun.

Cwestiwn 5 - Ydych chi'n cytuno bod Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru yn darparu dull eglur o sicrhau bod polisiau'n cael eu cymhwyso i gynigion ar sail gymesur? Os nad ydych, rhowch fanylion am eich rhesymau isod.

Crynodeb o'r ymatebion lle'r oedd opsiynau wedi'u dewis a'r ymatebion nad oeddent yn nodi opsiwn penodol.		
Opsiynau	Nifer yr ymatebwyr	Canran
Cytuno'n gryf	2	5.3%
Cytuno	20	52.6%
Anghytuno	15	39.5%
Anghytuno'n gryf	1	2.6%
Roedd 49 o ymatebwyr ychwanegol heb nodi barn derfynol.		



Mae'r sylwadau ac enghreifftiau canlynol yn adlewyrchu'r farn a ddarparwyd gan ymatebwyr mewn perthynas â'r dull o sicrhau bod polisiau'r cynllun drafft yn cael eu cymhwyso mewn ffordd gymesur:

Roedd mwyafrif yr ymatebwyr yn croesawu'r ymrwymiad yn y cynllun drafft i sicrhau bod polisiau'r cynllun yn cael eu cymhwyso mewn ffordd gymesur. Y bwriad wrth wneud yr ymrwymiad hwn yw sicrhau bod y dull o weithredu polisiau'r cynllun yn newid ffyrdd o ymddwyn ac ymarfer yn yr amgylchedd morol tuag at ddefnyddio a datblygu adnoddau mewn ffordd gynaliadwy heb osod baich diangen ar ysgwyddau defnyddwyr a rheolwyr morol. Er hynny, dywedodd nifer o ymatebwyr fod angen cael diffiniad o 'gymesur' a 'chymesuredd' yn y cynllun, wedi'i seilio ar enghreifftiau. Dywedodd ymatebwyr y bydd angen cael disgrifiad o'r hyn sy'n cael ei ystyried yn 'gymesur' er mwyn penderfynu a yw'r cynllun yn cyflawni'r amcan hwn neu beidio. Dylai diffiniad o'r fath roi ystyriaeth, er enghraifft, i raddfa, lleoliad, math a hirhoedledd y cynigion.

Mynegwyd pryderon gan rai ymatebwyr am yr effeithiau posibl ar yr amgylchedd o weithgareddau penodol ac a ellir rheoli'r rhain neu beidio o fewn terfynau amgylcheddol. Nododd rhai ymatebwyr fod y cynllun drafft yn darparu fframwaith ar gyfer penderfynu ond nad yw, er hynny, yn dileu'r ansicrwydd ynghylch y graddau y gellir rheoli gweithgareddau fel eu bod yn cefnogi economïau lleol mewn ffordd gynaliadwy dros y tymor hir a hefyd yn diogelu'r amgylchedd. Cafwyd sylwadau gan rai ymatebwyr am y pwysigrwydd o ddefnyddio tystiolaeth yn briodol i bennu cymesured.


Nododd un ymatebydd fod y pwyslais ar gymesuredd wedi'i fynegi orau yn yr amcan cyntaf yn dCMCC (para 2.6.1.5): "... marine plan authorities should apply precaution within an overall risk-based approach, in accordance with the sustainable

development policies of the UK Administrations. The marine plan authority should ensure that appropriate weight is attached to designated sites; to protected species; habitats and other species of principal importance for the conservation of biodiversity; and to geological interests within the wider environment.” Nododd ymatebydd arall fod y cynllun drafft yn ceisio bod yn gadarnhaol ynghylch datblygiadau morol ond y dylid ei gwneud yn glir hefyd y byddai dull ‘cymesur’ yn cynnwys gwrthsefyll/atal datblygiadau nad ydynt yn cydymffurfio â’r holl bolisiâu (perthnasol) yn y cynllun (oni bai fod ystyriaethau perthnasol yn awgrymu fel arall).

Byddwn yn gweithio gyda rhanddeiliaid i roi mwy o eglurder ynghylch diffinio a chymhwyso ‘cymesuredd’ yn y cynllun.

Cwestiwn 6 - Ydych chi’n cytuno y gall Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru gefnogi integreiddio rhwng rheoli’r tir a’r môr a chyfrannu at egwyddorion Rheolaeth Integredig ar Barthau Arfordirol? Os nad ydych, sut y gellir gwella hyn?

Crynodeb o’r ymatebion lle’r oedd opsiynau wedi’u dewis a’r ymatebion nad oeddent yn nodi opsiwn penodol.		
Opsiynau	Nifer yr ymatebwyr	Canran
Cytuno’n gryf	2	4.8%
Cytuno	34	80.9%
Anghytuno	5	11.9%
Anghytuno’n gryf	1	2.4%
Roedd 45 o ymatebwyr ychwanegol heb nodi barn derfynol.		



Roedd y rhan fwyaf o ymatebwyr a nododd farn bendant yn cytuno’n gryf fod CMCC yn gallu cefnogi integreiddio rhwng rheoli’r tir a’r môr a chyfrannu at egwyddorion Rheolaeth Integredig ar Barthau Arfordirol.

Roedd y sylwadau canlynol yn adlewyrchu’r farn bod dCMCC yn darparu’n llwyddiannus ar gyfer integreiddio rhwng rheoli’r tir a’r môr:

Yn fyr:

- Nododd un ymatebydd fod modd i’r Cynllun gyfrannu’n helaeth iawn at Reolaeth Integredig ar Barthau Arfordirol yng Nghymru. Mae’n gosod y fframwaith ar gyfer cydgyssylltu syniadau rhwng Cynlluniau Datblygu Lleol, y Cynllun Morol, Cynlluniau Rheoli Traethlin, a’r sefydliadau cysylltiedig mewn system seiliedig ar gynllun. Dylai hefyd fod o gymorth i integreiddio rhwng

rheoli'r tir a'r môr drwy gymhwyso dulliau rheoleiddio hanesyddol at reoli'r môr o dan system seiliedig ar gynllun sy'n gweithredu ar dir. Mae rhan i'w chwarae gan gynllunwyr y tir hefyd wrth gydnabod hyn.

- Roedd un ymatebydd wedi sylw at y tebygrwydd rhwng egwyddorion Rheolaeth Integredig ar Barthau Arfordirol a'r dull rheoli ar lefel yr ecosystem gan wneud y pwynt y bydd sicrhau bod egwyddorion rheoli ar lefel yr ecosystem wedi'u cymhwyso yn hyrwyddo Rheolaeth Integredig ar Barthau Arfordirol.
- Tynnwyd sylw gan nifer o ymatebwyr at yr angen am berthynas glir ac agos rhwng CMCC a'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol wrth iddynt ddatblygu, yn cynnwys yr awgrym *“There is an opportunity to develop a vision alongside that of the National Development Framework so that there is a coherent and ambitious vision for all of Wales.”* Cyfeiriwyd hefyd at y gwaith o ddiweddarau Polisi Cynllunio Cymru a'r cyfleoedd ar gyfer integreiddio roedd hyn yn eu cynnig.
- Teimlai ymatebwyr eraill fod cyfeiriadau at Reolaeth Integredig ar Barthau Arfordirol yn fwy arwynebol a bod angen mwy o eglurder.

Mae'r sylwadau canlynol yn cynnig awgrymiadau ar gyfer gwella:

- Roedd nifer o ymatebwyr wedi awgrymu bod angen diweddarau Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 14⁷ a 15⁸ i hyrwyddo integreiddio rhwng rheoli'r tir a'r môr.
- Thema gyffredin oedd yr angen am gydgysylltu CMCC a'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol.

Byddwn yn parhau i gydweithio â chydweithwyr ym maes cynllunio tir i helpu i sicrhau dulliau cyffredin ac alinio rhwng cynlluniau defnydd tir a CMCC.


Byddwn yn ystyried y gwerth o gyhoeddi canllawiau penodol ar gyfer gwneud penderfyniadau mewn perthynas â phrosiectau lle mae cyd-destun defnydd tir a chynllunio morol.

⁷ TAN 14: <https://gov.wales/topics/planning/policy/tans/tan14/?lang=cy>

⁸ TAN 15: <https://gov.wales/topics/planning/policy/tans/tan15/?lang=cy>

Cwestiwn 7 - Ydych chi'n cytuno bod Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru yn rhoi ystyriaeth ddigonol i heriau a chyfleoedd cynllunio morol ar draws ffiniau, yn enwedig mewn ardaloedd lle mae Cymru'n ffinio â Lloegr? Os nad ydych, rhowch fanylion isod.

Crynodeb o'r ymatebion lle'r oedd opsiynau wedi'u dewis a'r ymatebion nad oeddent yn nodi opsiwn penodol .		
Opsiynau	Nifer yr ymatebwyr	Canran
Cytuno'n gryf	1	2.4%
Cytuno	23	56.1%
Anghytuno	15	36.6%
Anghytuno'n gryf	2	4.9%
Roedd 46 o ymatebwyr ychwanegol heb nodi barn derfynol .		



At ei gilydd, roedd ymatebwyr yn cytuno bod y cynllun drafft yn rhoi ystyriaeth ddigonol i heriau a chyfleoedd ar draws ffiniau. Er hynny, roedd rhai ymatebwyr yn anghytuno bod hyn wedi'i wneud yn ddigonol yn y drafft.

Roedd y sylwadau canlynol yn adlewyrchu'r farn a gyflwynwyd gan yr ymatebwyr am ystyriaethau trawsffiniol yn dCMCC:

"... we acknowledge the difficulty in meaningful cross-border planning in this first iteration of marine planning across the UK, where timelines for planning different adjoining areas of sea have not been aligned."

"... there is possibly more emphasis on interactions between Wales and England than between Wales and the Irish Republic. It could be argued that more detailed / joint Welsh / English Marine Plans for the upper parts of the Severn Estuary / Bristol Channel and for the areas around the Dee Estuary should have been produced."

"Currently, we do not believe there has been enough consideration of cross-border issues within the Marine Plan and throughout the marine planning process."

Yn fyr:


- Roedd cydnabyddiaeth gyffredinol bod cynllunio cydgysylltiedig ar draws ffiniau yn cynnig her pan nad yw'r cyfnodau cynllunio yn gyson a lle nad oes cynlluniau yn Lloegr i'w hystyried neu alinio â nhw.

- Nododd ymatebwyr nad yw systemau naturiol yn parchu ffiniau cynllunio a bod ffiniau'r cynllun yn y gogledd a'r de mewn aberoedd ac felly bod rheolaeth gydgysylltiedig, ofalus yn hanfodol.
- Roedd nifer o ymatebwyr wedi holi sut y gall y cynllun ddilyn dull rheoli ar lefel yr ecosystem os nad oes cynllunio integredig a chyfannol ar gyfer ecosystemau aberoedd.
- Codwyd pwynt yn aml am y fantais o alinio data ar byrth cynllunio ar-lein rhwng awdurdodau cynllunio morol cyfagos.
- Cynigiodd un ymatebydd y dylid sefydlu panel cynghori trawsffiniol i gefnogi cynllunio cydgysylltiedig.
- Gofynnodd ymatebwyr am ymrwymiad i barhau â gweithio trawsffiniol, yn enwedig â'r Sefydliad Rheoli Morol (MMO) mewn perthynas â chynlluniau morol yn Lloegr wrth iddynt ddatblygu.

Fel y nodwyd yn y cynllun drafft, rydym wedi ymrwymo i weithio a chydweithredu ar draws ffiniau. Byddwn yn gweithio gyda rhanddeiliaid i adnabod cyfleoedd i roi mwy o eglurder drwy ganllawiau ar weithredu polisi wrth i ni gwblhau'r gwaith ar y cynllun drafft. Byddwn yn ystyried y posibilrwydd o sefydlu panel cynghori trawsffiniol ac yn edrych ar gyfleoedd i alinio pyrth cynllunio perthnasol. Byddwn yn parhau i gydweithio'n agos ag awdurdodau cynllunio morol eraill.

Cwestiwn 8 - Ydych chi'n cytuno bod y canllawiau gweithredu ar gyfer polisiau cyffredinol yn addas i'w diben? Os nad ydych, sut y gellir eu gwella?

Crynodeb o'r ymatebion lle'r oedd opsiynau wedi'u dewis a'r ymatebion nad oeddent yn nodi opsiwn penodol.		
Opsiynau	Nifer yr ymatebwyr	Canran
Cytuno'n gryf	2	9.1%
Cytuno	4	18.2%
Anghytuno	15	68.2%
Anghytuno'n gryf	1	4.5%
Roedd 46 o ymatebwyr ychwanegol heb nodi barn derfynol .		



Dim ond un rhan o dair o'r ymatebwyr a nododd farn bendant mewn ymateb i'r cwestiwn hwn. Fodd bynnag, roedd mwyafrif y rhai a roddodd eu barn wedi anghytuno ac wedi cynnig nifer o awgrymiadau am feysydd i'w gwella.

Mae'r sylwadau ac enghreifftiau canlynol yn adlewyrchu'r barnau a roddwyd gan ymatebwyr mewn perthynas ag a yw'r canllawiau ar weithredu polisi cyffredinol yn addas i'w diben:

Yn fyr:

- Dywedodd nifer o ymatebwyr fod angen canllawiau ar *'weighing up the negative aspects on biodiversity (if there are any) against Blue Growth' a 'ensuring safeguarding is strong enough'* (gweler Cwestiwn 2). Mae angen gosod hyn yng nghyd-destun sicrhau a chynnal *'clean, safe, healthy and biologically diverse oceans and seas'*.
- Mewn rhai ymatebion cyfeiriwyd at yr angen am ragor o ganllawiau ar y cysylltiadau â chynllunio tir a chodwyd y mater o gyfyngiadau ar adnoddau awdurdodau lleol.
- Mewn rhai ymatebion gofynnwyd am fwy o eglurder ynghylch sut mae'r cynllun yn cyfrannu at gyflawni mecanweithiau deddfwriaethol presennol, e.e. statws ecolegol / amgylcheddol da o dan y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr a Chyfarwyddeb Fframwaith y Strategaeth Forol, Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy o dan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru); a nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru). Gan gyfeirio'n benodol at Gyfarwyddeb Fframwaith y Strategaeth Forol, holodd rhai ymatebwyr pam nad oedd y cynllun drafft yn cyfeirio'n benodol at bob un o'r 11 disgrifydd.
- Cyfeiriwyd at yr effeithiau cadarnhaol a negyddol posibl o ddatblygu morol ar dir a'r arfordir ac awgrymwyd y dylid cydgysylltu â chynllunwyr wrth weithredu a bod angen monitro ychwanegol i ddarparu ar gyfer hyn.
- Tynnwyd sylw at yr angen am ganllawiau effeithiol ar bolisi a gweithredu trawsffiniol a oedd yn cymryd i ystyriaeth *'those parts of the Welsh marine plan area (especially the Severn and Dee) in which natural estuarine systems have been divided into different planning processes'*.
- Yn gyffredinol, roedd ymatebwyr o'r farn bod y canllawiau ar weithredu ar gyfer Ardaloedd Adnoddau Strategol yn annigonol. Galwodd ymatebwyr am ragor o ganllawiau ar ffyrdd i ystyried/asesu manau lle'r oedd Ardaloedd Morol Gwarchodedig ac Ardaloedd Adnoddau Strategol yn gorgyffwrdd wrth wneud penderfyniadau.
- Roedd nifer o ymatebwyr yn credu bod angen rhagor o ganllawiau ym mhob rhan o'r cynllun ar sut i gymhwyso egwyddorion Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy, yn gyffredinol ac mewn perthynas â pholisïau penodol (e.e. GEN-02). Dyma rai enghreifftiau o sylwadau am ganllawiau ynghylch Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy a chymhwyso egwyddorion cysylltiedig (yn cynnwys diffiniadau) mewn canllawiau ar weithredu:

“Given that a significant number of decisions which will implement the plan will be made by NRW – which has a statutory purpose to pursue SMNR [...] – it is clear that the Plan’s guidance must be coherent with that Welsh Government provide to NRW relating to Part 1 of the Environment (Wales) Act.”

“Nowhere in the implementation guidance is Sustainable Development defined”

“We would like to see more guidance on when it may be appropriate to apply precaution vs proportionate”

- Nododd un ymatebydd ei bod yn bwysig bod polisiau’n canolbwyntio ar gynefinoedd a rhywogaethau a restrwyd gan fod hyn wedyn yn darparu ffocws / amddiffyniad hanfodol i gynnal nodweddion amgylcheddol, fel y gall ymdrechion cyffredinol i ddiogelu / gwella bioamrywiaeth gael eu pennu a’u targedu’n well.

Mae’r sylwadau canlynol yn cynnig awgrymiadau ar gyfer diwygio neu wella’r canllawiau:

- Roedd nifer o ymatebwyr wedi awgrymu cael dogfennau ar wahân er mwyn darparu canllawiau manylach ar weithredu. Byddai hyn yn caniatáu i’r cynllun fod yn fyrrach ac i lefel y wybodaeth sydd ei hangen i ddangos cydymffurfio â pholisi penodol gael ei mynegi’n glir.
- Cafwyd ymateb gan nifer o aelodau’r Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid a oedd yn nodi’r angen i gyflawni argymhellion yr is-grŵp Gorchwyl a Gorffen a oedd wedi ystyried y broses o weithredu’r cynllun.
- Awgrymwyd y byddai darparu hyfforddiant/codi ymwybyddiaeth ymysg cynllunwyr yn fuddiol o ran *‘endorsing and testing the robustness of the plan’*.
- Yn ôl nifer o ymatebwyr, mae angen rhagor o ganllawiau ar bwysu a mesur yr effeithiau negyddol ar fioamrywiaeth (os bydd rhai) ochr yn ochr â ‘Thwf Glas’.
- Mewn rhai ymatebion cyfeiriwyd at yr angen am ganllawiau ychwanegol lle mae angen ystyried y cynllun morol wrth ddatblygu ar dir .
- Dylai’r cynllun ailddatgan yr angen am sicrhau’r cymeradwyaethau angenrheidiol, er enghraifft, wrth ddelio â dynodiadau amgylcheddol ac asedau hanesyddol. Gofynnwyd am eglurhad ynghylch y sefyllfa mewn perthynas â Thirweddau Hanesyddol sydd heb eu dynodi.
- Dylid cynnwys polisi ychwanegol gyda’r polisi drafft presennol sy’n annog cyflwyno cynigion sy’n ystyried cyfleoedd i gydfodoli â sectorau cydweddol eraill a fydd yn galw am ddangos y camau gweithredu arfaethedig i gyflawni hyn.

- Cafwyd rhai sylwadau cadarnhaol am ganllawiau, e.e. *“overall, it is an excellently prepared, well-balanced proposal”* ond roedd ceisiadau hefyd am eglurhad, er enghraifft:
- *“It is positive to note that when a proposal has the potential to impact on commercial fishing or supporting areas the proposer is strongly encouraged to engage with relevant fisheries stakeholders at the earliest stages...However, there is no clear requirement for engagement when proposals affect species and habitats under FIS-03”.*

Gyda golwg ar yr ymatebion hyn, byddwn yn ystyried ffyrdd i wneud y cynllun yn fyrrach ac yn gliriach a’r posibilrwydd o ddefnyddio dogfennau esboniadol atodol. Byddwn yn sicrhau bod cymorth i weithredu CMCC yn agwedd bwysig ar waith Llywodraeth Cymru cyn ac ar ôl mabwysiadu’r cynllun. Byddwn yn parhau i drafod ag awdurdodau cyhoeddus yng Nghymru ac mewn rhannau eraill o’r DU er mwyn dysgu gwersi o’u profiad o weithredu cynlluniau a byddwn yn gweithio gyda rhanddeiliaid mewn perthynas â’r ffordd orau i gydbwyso’r effeithiau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol o ddatblygiadau. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i gynnal sylfaen dystiolaeth briodol ar gyfer cynllunio morol.

Cwestiwn 9 - Oes gennych unrhyw sylwadau neu bryderon mewn perthynas â’r polisïau cefnogi a diogelu a’r canllawiau gweithredu sector? Os oes gennych bryderon, eglurwch eich rhesymau am hynny.

Cafwyd 29 o ymatebion i’r cwestiwn hwn. Mae dCMCC yn nodi polisïau cefnogi a diogelu ar gyfer yr 11 o sectorau a restrwyd.

Roedd nifer o ymatebwyr wedi cynnig sylwadau a oedd yn gefnogol at ei gilydd i’r dull o ymdrin â pholisi ar sectorau. Roedd nifer wedi gwneud awgrymiadau i wella neu egluro cynnwys y naratif ar sectorau, i egluro geiriad neu fwriad polisïau, neu wedi nodi agweddau lle byddai mantais mewn datblygu canllawiau ar weithredu mewn sectorau (gan ymhelaethu’n aml ar atebion a roddwyd i Gwestiwn 8). Er enghraifft:

- Drwy integreiddio polisïau cyffredinol wrth wneud penderfyniadau i ganiatáu datblygiadau mewn sectorau yn unol â’r polisïau ar eu cyfer;
- Awgrymu lle’r oedd angen diffiniadau, e.e. ar beth yw “amgylchiadau eithriadol” yng nghyd-destun sector neu rhwng sectorau, neu beth oedd ystyr “annog”;
- Wrth bennu hierarchaeth y polisi diogelu a lefel y gefnogaeth a gynigir i ddatblygiadau sydd eisoes yn bodoli, y rheini sy’n disgwyl penderfyniad (e.e. chwilio ac opsiynau) a’r rheini y gellir gwneud cais amdanynt – y tu mewn neu’r tu allan i Ardaloedd Adnoddau Strategol.

Gyda golwg ar sylwadau a gafwyd mewn ymateb i’r cwestiwn hwn ac eraill, byddwn yn adolygu strwythur polisïau diogelu’r sectorau, yn diweddar

cynnwys naratifau ar sectorau ac yn adolygu canllawiau ar weithredu a'u datblygu ymhellach.

Cwestiwn 10 - A ydym wedi adnabod Ardaloedd Adnoddau Strategol ar gyfer y sectorau cywir ac yn yr ardaloedd priodol? Os nad ydym, nodwch ba Ardaloedd Adnoddau Strategol y mae angen eu diwygio a darparwch dystiolaeth glir isod.

Cafwyd 29 o ymatebion i'r cwestiwn hwn. Nid oedd mwyafrif yr ymatebwyr wedi nodi barn bendant. O'r ymatebwyr a oedd wedi dewis opsiwn, roedd 60% yn cytuno bod Ardaloedd Adnoddau Strategol wedi'u pennu ar gyfer y sectorau cywir ac yn yr ardaloedd priodol. Cafwyd sylwadau penodol am yr angen am newidiadau yn ffiniau Ardaloedd Adnoddau Strategol, yn cynnwys y rheini ar gyfer ynni amrediad llanw, agregau, porthladdoedd a morgludiant, dyframaethu ac ynni tonnau. Roedd nifer o ymatebwyr wedi tynnu sylw at y posibilrwydd o effeithiau trawsffiniol o Ardaloedd Adnoddau Strategol, yn cynnwys y rheini ar gyfer porthladdoedd a morgludiant, dyframaethu, agregau, ynni ffrwd llanw, ynni morlyn llanw, ac ynni tonnau. Roedd nifer o bryderon am beidio ag ystyried cyfyngiadau amgylcheddol wrth bennu Ardaloedd Adnoddau Strategol. Roedd rhai ymatebwyr yn gefnogol i'r elfen ofodol mewn Ardaloedd Adnoddau Strategol, i'w swyddogaeth fel offeryn polisi ac i'r defnydd posibl ohonynt wrth bennu anghenion am dystiolaeth.

Mae'r sylwadau canlynol yn adlewyrchu'r farn am y manteision mewn Ardaloedd Adnoddau Strategol:

“SRAs bring a spatial element strengthening the planning aspect alongside policy. Appreciation that SRAs are a strategic tool, not intended to reflect site specific issues but to focus on strategic opportunities and challenges. They add value as an area-based policy tool to support marine planning by helping to signpost co-existence opportunities across sectors, so as to optimise use of marine space and unlock opportunities.”

“Strategic Resource Areas (SRAs) are a useful way of indicating where discrete areas of resource lie for future development of activities. This is demonstrated well for aggregates, wave energy, tidal stream and tidal range which are all limited spatially by adequate resource.”

“We therefore support the Welsh Government’s use of Strategic Resource Areas as a mechanism for appraising sector issues and steering evidence needs and evaluation, however we acknowledge the constraints that this approach presents. We recognise that our understanding of these SRAs will develop over time and this will need to be reviewed going forward.”

“The SRAs are an important tool to address the potential spatial implications of existing and future marine activities.”

*“as well as indicating where activities are likely to take place in the future, through their absence they [SRAs] also indicate where activities are **unlikely to occur**. From a scoping/screening perspective, this is really helpful for both developers and for*

regulators, and while it appears obvious we suspect that it is something that is often overlooked.

“It is important to acknowledge that SRA’s are as much about supporting the continued operation of existing sectors, not just the identification of where growth may occur in the future”.

Mae’r sylwadau canlynol yn adlewyrchu sylwadau sy’n canolbwyntio ar yr angen am dystiolaeth mewn perthynas ag Ardaloedd Adnoddau Strategol:

“As it currently stands, we object to areas of sea being ring-fenced as “good opportunities for future use” for the development of industry without considering environmental constraints. We disagree that SRAs “cannot fully reflect site specific, detailed considerations of opportunity and constraint, for example, aspects of designated conservation sites”.

“We consider that more evidence is needed to finalise Strategic Resource Areas. Resource areas will need to respond changes in technology. In some cases, it may make sense to develop joint resource areas with relevant parts of England.”

“... the Draft Plan states that Strategic Resource Areas cannot fully reflect site-specific detailed considerations ... I would like greater assurances within the final Plan that marine protected areas will not be undermined, but rather enhanced.”

“If SRAs are to be identified with a view to development, then their boundaries must be refined on the basis of environmental and socio-economic constraints. The refinement should also take into account other natural resources and uses of them and recognise the intrinsic value of resources.”

“Without recognition of Wales’ most important areas for wildlife, of which many areas are protected under European Legislation, it is unlikely that SRAs will provide more certainty and clarity for marine users on where best to place their activities. Equally, consent may not always be appropriate, and we feel that current implementation guidance may give a false impression to developers that it will be easier to gain consent for development within SRAs, regardless of their level of impact on wildlife.”

“We believe that constraints mapping (for example, a red-amber-green traffic light system) is necessary to provide much needed clarity for developers and regulators by providing an indication as to which areas within SRAs may be suitable or ultimately unsuitable to develop.”

Mae’r sylwadau canlynol yn ymwneud â’r effeithiau trawsffiniol o Ardaloedd Adnoddau Strategol:

“... any evolution of the SRAs during the lifetime of the plan need to be more clearly defined from the outset. There is also a need to carefully examine the potential cross-border compatibility of the sectors with SRAs.”

“Given the knowledge gap currently surrounding the potential impact of tidal energy developments, combined with the high level of support within the draft Welsh Marine Plan policies, this sector represents a significant risk to cross-border compatibility.”

Roedd y sylwadau canlynol yn tynnu sylw at anghysondeb o ran pennu Ardaloedd Adnoddau Strategol a’r termau sy’n gysylltiedig â nhw:

“...SRAs have not been identified in a consistent way.”

“For some industries, there is no SRA assigned to them e.g. tourism, fisheries, recreation and this has the potential to disadvantage them. In addition, spatial prescription can be used for more than just areas for blue growth.”

“...the Plan includes contradictory messaging leading to questions as to their purpose in a plan-led system.”

Yn fyr:

- Roedd nifer o ymatebwyr o blaid cysyniad yr Ardaloedd Adnoddau Strategol ac yn cydnabod y gallent fod yn offeryn cynllunio defnyddiol ac yn fodd i bennu anghenion am dystiolaeth.
- Roedd rhai ymatebwyr am weld Ardaloedd Adnoddau Strategol yn cael eu pennu ar gyfer sectorau eraill fel ynni’r gwynt, pysgodfeydd, twristiaeth a hamdden, ac ecosystemau.
- Yn gyffredinol, roedd ymatebwyr wedi nodi’r angen am ragor o dystiolaeth mewn perthynas ag Ardaloedd Adnoddau Strategol, yn benodol, y dylent gael eu diffinio ar sail cyfyngiadau amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd.
- Mynegwyd pryderon am yr effaith o Ardaloedd Adnoddau Strategol a’r polisiau sy’n gysylltiedig â nhw ar ecosystemau morol a’r rhwydwaith o Ardaloedd Morol Gwarchoddedig.
- Nodwyd yr effeithiau trawsffiniol dichonol o Ardaloedd Adnoddau Strategol mewn perthynas â’r holl Ardaloedd Adnoddau Strategol a thynnwyd sylw at yr angen i arfarnu cynigion mewn ffordd briodol.
- Teimlai rhai ymatebwyr fod anghysondeb yn y termau a oedd yn cael eu defnyddio mewn perthynas ag Ardaloedd Adnoddau Strategol.
- Mewn rhai ymatebion roedd manylion penodol am newidiadau a oedd wedi’u cynnig yn ffiniau Ardaloedd Adnoddau Strategol.

Roedd gwahaniaeth barn yn gryf o blaid ac yn erbyn Ardaloedd Adnoddau Strategol. Rydym yn credu bod gwerth iddynt fel offeryn cynllunio gofodol. Gyda golwg ar y sylwadau a gafwyd mewn ymateb i’r cwestiwn hwn ac i eraill, byddwn yn parhau i weithio gyda rhanddeiliaid i fireinio’r cysyniad o Ardaloedd Adnoddau Strategol a’r sylfaen dystiolaeth ar eu cyfer (yn cynnwys comisiynu astudiaethau perthnasol).

Cwestiwn 11 - Ydych chi’n meddwl bod y cynllun yn mynd ati’n ddigonol i adnabod cyfleoedd a blaenoriaethau ar gyfer twf glas? Os nad ydych, rhowch fanylion isod.

Cafwyd 24 o ymatebion i’r cwestiwn hwn. Mae dCMCC yn nodi cyfleoedd ar gyfer twf yn y sectorau morol hyn: ynni adnewyddadwy, twristiaeth, hamdden, porthladdoedd

a morgludiant a dyframaethu. Roedd ymatebwyr yn cefnogi hyn ac nid oeddent wedi nodi unrhyw fylchau.

Er hynny, roedd nifer wedi gwneud sylwadau pellach am sectorau penodol, e.e.

- Mae'n bosibl bod y cyfleoedd am dwf mewn dyframaethu yn gyfyngedig ac yn llai nag y mae rhai yn ei ddisgwyl.
- Ynni gwynt ar y môr sydd â'r potensial mwyaf.
- *"more could be done to support the growth of the sport and recreation sector (as well as for tourism)".*
- *"heritage assets also have 'social, economy and environmental value. It can be a powerful driver for economic growth, attracting investment and tourism and sustaining enjoyable and successful places in which to live and work."*
- *"areas for future growth in the "blue" economy exist in science and innovation".*

A chafwyd rhai sylwadau cyffredinol:

- *"We are not convinced that the term "Blue Growth" is particularly helpful as it covers disparate industries some of which are well-established whilst others are at an early stage."*
- *"A summary table or illustration of priorities and opportunities in the Blue Growth sector would be useful to ensure this message is clear."*
- *"better alignment and coordination between the WNMP, National Development Framework and other policy areas such as the transport, infrastructure and energy could further support Blue Growth".*
- bydd twf mewn un sector yn effeithio ar un arall, *"... the priorities are understandably important, {but} consideration will be required of the potential impacts on other activities covered by the plan which may enable or support delivery."*
- *"clarification that whatever marine development is proposed then there is economic, social and environmental and cultural benefit to the coastal communities".*
- *"the plan is very generic and does not appear to identify any specific developments that should be prioritised to take forwards, unlike Local Development Plans which must highlight the priority development areas and types expected to be brought forwards to meet strategic needs."*

Lle nad oedd sylwadau'n gefnogol, roeddent yn aml yn cyfeirio at y graddau roedd y cynllun yn gogwyddo at "datblygu" ac nad oedd, yn eu barn nhw, yn rhoi ystyriaeth ddigonol i'r amgylchedd, er enghraifft:

- *"concerns regarding the emphasis on blue growth in the plan, considers that this is too pro development and that the focus needs to be more on ecosystem condition and conservation."*
- *"the blue growth section is rather too prominent and the plan is too pro-development. A careful balance between blue economy and marine conservation is required. Also, ecosystem enhancement is not addressed, but the main focus is on future new developments."*
- *"that there is a trade off between Blue Growth and Good Environmental Status"*
- *"the potential growth areas are identified, but there is little indication of the contribution they are expected to make, the capacity of the environment and communities to accommodate this contribution, the potential conflicts between them, or which bring most benefits to Wales in terms of the well-being goals".*
- *"the value of the marine ecosystems and the goods and services they provide needs to be better assessed"*

Roedd rhai o'r farn bod rhai gweithgareddau datblygu yn ddibynnol ar yr amgylchedd morol:

- *"Blue Growth is likely to be unsustainable, supported by sector policies that risk undermining the long-term realisation of ecosystem resilience {without} greater emphasis on SMNR activities which enhance ecosystem resilience and natural capital than it currently does ... recognises that nature is a major contributor to the resilience of coastal communities given its central role in underpinning tourism, agriculture and fisheries."*
- *"... without a restored marine environment, the potential for blue growth will remain significantly lower than could be the case. There is a need to consider the concept not in the short, but the long term."*

O ystyried y gefnogaeth eang i'r dull hwn o weithredu, rydym yn bwriadu cadw'r strwythur a'r dull gweithredu cyffredinol sydd wedi'u nodi yn y cynllun drafft. Fodd bynnag, fe fyddwn yn egluro ystyr "twf glas" a byddwn yn gweithio gyda rhanddeiliaid i sicrhau bod y cynllun yn darparu fframwaith priodol ar gyfer defnyddio a datblygu'r ardal forol mewn ffordd gynaliadwy.

Cwestiwn 12 - A oes gennych unrhyw sylwadau ar bolisi carthu agregau morol diwygiedig Llywodraeth Cymru yng Nghynllun Morol Cenedlaethol Cymru a'r cynnig i ddiddymu'r Polisi Carthu Agregau Morol interim? Os oes, nodwch y rhain isod.

Cawsom 15 o ymatebion. Roedd y rhan fwyaf ohonynt yn croesawu'r adolygiad o bolisi agregau morol yng Nghymru ac yn cytuno ar y newidiadau arfaethedig.

Gofynnwyd am rywfaint o eglurhad pellach, er enghraifft, ar y canlynol:

- statws y Polisi Carthu Agregau Morol interim yn y dyfodol (h.y. a fydd yn cael ei gadw ar gyfer cyfeirio neu ei ddiddymu) a'i rôl mewn penderfynu yn y dyfodol.
- y goblygiadau o osod cap ar y tunelledd o aber Hafren Uchaf, y cyfiawnhad dros hynny, sut bydd ei faint yn cael ei bennu a sut y caiff ei reoli.
- y graddau y mae asedau hanesyddol wedi'u hadlewyrchu'n ddigonol yn y system trwyddedu a monitro a'r codau ymarfer a ddilynir.
- cynnwys a bwriad hierarchaidd y polisi diogelu cysylltiedig.
- statws y codau ymarfer.

Rydym yn bwriadu symud ymlaen i adolygu a disodli'r Polisi Carthu Agregau Morol interim drwy ddatblygu a gweithredu'r polisiâu ar gyfer y sector agregau yn CMCC a'u mabwysiadu yn yr un cyfnod.

Cwestiwn 13 - A oes gennych unrhyw sylwadau am ganfyddiadau'r Arfarniad o Gynaliadwyedd Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru? Os oes, rhowch y rhain isod.

Cafwyd 15 o sylwadau am adroddiad yr Arfarniad o Gynaliadwyedd. Roedd y rhain yn gynhwysfawr ac yn ymdrin â phob agwedd ar yr adroddiad, yn cynnwys y fethodoleg, canfyddiadau'r arfarniad, argymhellion a chynigion ar gyfer monitro.

Mae'r sylwadau canlynol yn adlewyrchu'r farn a gyflwynwyd gan yr ymatebwyr:

- Roedd nifer o ymatebwyr wedi gwneud sylwadau am y fethodoleg a fabwysiadwyd ar gyfer yr Arfarniad o Gynaliadwyedd, yn cynnwys cwmpasu effeithiau trawsffiniol, y diffiniadau o arwyddocâd, a'r angen am eglurder ynghylch y cyfyngiadau amgylcheddol ar ardal y cynllun.
- Roedd nifer o ymatebwyr hefyd wedi tynnu sylw at yr angen i'r Arfarniad o Gynaliadwyedd roi sylw i ystod ehangach o ddewisiadau rhesymol yn lle dCMCC, er enghraifft, cynllun cenedlaethol lefel uchel yn unig, mwy o ddefnydd o gynlluniau parth a chynlluniau lleol / is-genedlaethol o dan lefel cynllun cenedlaethol.

- Roedd mwyafrif yr ymatebion a gafwyd mewn perthynas â chanfyddiadau'r Arfarniad o Gynaliadwyedd yn ymwneud â'r effeithiau a bennwyd mewn perthynas ag elfen y morlynnoedd llanw ym Mholisi ELC_01. Roedd y rhain yn cynnwys ymholiadau am y canlynol, er enghraifft:
 - yr angen i ystyried yr effeithiau o ddatblygu ynni adnewyddadwy ar y sector llongau a morgludiant;
 - amlygrwydd yr effeithiau o forlynnoedd llanw yng nghyd-destun rhwydweithiau o safleoedd morol gwarchoddedig sy'n ecolegol gydlynol;
 - y graddau y gall rhai o'r effeithiau a nodwyd mewn perthynas â morlynnoedd llanw fod yn arwyddocaol (er enghraifft, o ran halltedd a thymheredd dŵr uwch) a/neu'n ansicr am nad oes dealltwriaeth dda o'r dechnoleg a'r mesurau sydd eu hangen i liniaru effeithiau.
- Roedd sylwadau eraill a oedd yn ymwneud â chanfyddiadau'r Arfarniad o Gynaliadwyedd yn gysylltiedig â'r angen i roi mwy o ystyriaeth i'r canlynol: effeithiau ar dirweddau a morweddau; effeithiau o ddyframaethu ar fioamrywiaeth a'r effeithiau ar ddatblygiadau ynni ar y môr os ydynt wedi'u lleoli ym meysydd tanio'r Weinyddiaeth Amddiffyn yng Nghastell Martin a Maenorbŷr oddi ar arfordir de sir Benfro.
- Roedd ymatebwyr yn cyd-weld at ei gilydd â'r argymhellion yn Adroddiad yr Arfarniad o Gynaliadwyedd, yn cynnwys rhai ar gyfer sicrhau bod penderfyniadau cynllunio morol yn gyson ag egwyddorion Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy a chynnal rhagor o ymchwil i ddatrys yr elfennau o ansicrwydd a nodwyd yn yr arfarniad.
- Teimlai nifer o ymatebwyr fod angen gwneud rhagor o waith mewn perthynas â monitro, gan ystyried yr heriau o ran gwahanol gylchoedd adrodd, dewis dangosyddion monitro, agweddau ymarferol ac effeithiolrwydd monitro a rolau a chyfrifoldebau.

Gyda golwg ar sylwadau a gafwyd mewn ymateb i'r cwestiwn hwn ac eraill, byddwn yn adolygu'r Arfarniad o Gynaliadwyedd ac yn eu hystyried wrth aildrafftio CMCC.

Cwestiwn 14 - A oes gennych unrhyw sylwadau am yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd? Os oes, rhowch y rhain isod.

Cafwyd 16 o sylwadau am adroddiad yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd. Roedd y rhain yn ymwneud yn bennaf â chanfyddiadau'r asesiad am elfen y morlynnoedd llanw ym Mholisi ELC_01, ochr yn ochr â'r asesiad o atebion eraill, y ddadl o blaid ystyried Rhesymau Hanfodol sef er Budd Cyhoeddus Tra Phwysig (IROPI) a'r mesurau gwrthbwysio a nodwyd.

Mae'r sylwadau canlynol yn adlewyrchu'r farn a gyflwynwyd gan yr ymatebwyr:

- Cafwyd sylwadau gan nifer o ymatebwyr am yr asesiad o Bolisi ELC_01. Cyfeiriwyd yn benodol at y dull sgrinio a'r Parthau Dylanwad a fabwysiadwyd, y cyfrifoldeb am asesu ar lefel y prosiect, digonolrwydd yr asesiad o effeithiau trawsffiniol yn nyfroedd Lloegr ac o gydeffeithiau â nifer o wahanol brosiectau seilwaith eraill.
- Roedd un ymatebydd hefyd yn credu bod amcangyfrif yr asesiadau priodol manwl ar gyfer pysgod, cynefinoedd morol, adar a mamaliaid a'r amcangyfrif o raddfa'r effeithiau niweidiol ar integredd safleoedd Ewropeaidd yn debygol o fod yn rhy isel, yn enwedig o ystyried maint dichonol yr effeithiau a all godi o ddatblygu nifer o morlynnoedd mawr.
- Teimlai rhai ymatebwyr fod cwmpas yr asesiad o ddewisiadau eraill yn lle Polisi ELC_01 yn rhy gyfyng ac y dylid ystyried ystod ehangach o ddewisiadau (yn cynnwys dewisiadau eraill llai eu heffaith (a llai o ran cost) i ddatgarboneiddio'r economi a/neu gynhyrchu trydan carbon isel). Roedd rhai ymatebwyr hefyd yn teimlo y byddai nifer o'r dewisiadau eraill a nodwyd yn Adroddiad yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd yn cael llai o effaith na'r polisi drafft.
- Roedd nifer o ymatebwyr yn cwestiynu'r ddadl o blaid ystyried Rhesymau Hanfodol sef er Budd Cyhoeddus Tra Phwysig a gyflwynwyd yn Adran 13 o Adroddiad yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd yn enwedig o ystyried nad oedd cynlluniau na thystiolaeth fanwl i ategu'r ddadl ar sail ynni o blaid morlynnoedd llanw a'r dewisiadau eraill ar gyfer datgarboneiddio cyflenwad trydan Cymru.
- Yn gyffredinol, teimlai ymatebwyr fod angen ymdrin â digolledu mewn ffordd strategol tra oedd eraill wedi nodi y gall digolledu am forlynnoedd llanw mawr fod yn anodd iawn/amhosibl.
- Roedd un ymatebydd hefyd wedi mynegi pryderon mewn perthynas â'r asesiad o borthladdoedd a morgludiant.

Gyda golwg ar y sylwadau a gafwyd mewn ymateb i'r cwestiwn hwn ac eraill, byddwn yn adolygu'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd ac yn eu hystyried wrth aildrafftio CMCC.

Cwestiwn 15 - A oes gennych unrhyw sylwadau am yr effeithiau (boed yn gadarnhaol neu'n anffafriol) y byddai cyflwyno Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru yn eu cael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg?

Roedd mwyafrif yr ymatebwyr un ai heb nodi barn bendant neu heb gynnig sylwadau. O'r pum ymatebydd a wnaeth sylwadau, mae rhai o'u sylwadau wedi'u dangos isod.

Mae'r sylwadau ac enghreifftiau canlynol yn adlewyrchu'r farn a gyflwynwyd gan ymatebwyr mewn perthynas â'r cynllun drafft:

“We hope it will further encourage the use of the Welsh Language.”

“There is insufficient evidence at this strategic level to provide a response.”

“The WNMP will have no effect on Welsh Language requirements which should be dealt with through existing legislation (Wellbeing of Future Generations Act etc.) rather than unnecessarily included within an already overly duplicative plan.”

“There are some areas in which the provisions of this plan might support the Welsh language. One example would be where the fishing industry in coastal communities is supported, helping local people to remain in their home communities, which may have a strong Welsh-speaking element.”

Mae'r sylwadau canlynol yn cynnig awgrymiadau ar gyfer gwella:

- Dylid ystyried cynhyrchu *“Welsh language version of the final version of the Welsh National Marine Plan, any summary sectoral briefing notes that are generated from it, and also to production of Welsh language versions of the standards and best practice guidance listed in our response ...”*
- Yn y Porth Cynllunio Morol, byddai'n fuddiol cynnwys gwybodaeth ofodol am broffilau ieithyddol lleol (gan ddilyn y categorïau sydd yn Nodyn Cyngor Technegol Llywodraeth Cymru (TAN) 20⁹) i'w hystyried yn benodol wrth wneud penderfyniadau.
- Wrth nodi'r gofynion mewn polisi mewn perthynas â'r Gymraeg, mae angen sicrhau bod cwmpas a graddau'r dystiolaeth y mae angen i ymgeiswyr ei chyflwyno yn cael eu mynegi'n glir, er enghraifft, asesiadau o'r effaith ieithyddol.

Fel y nodwyd yn y cynllun drafft, rydym wedi ymrwymo i hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg a'i diwylliant. Byddwn yn gweithio gyda rhanddeiliaid i adnabod cyfleoedd i wneud hyn drwy ganllawiau ar bolisi a gweithredu, ac yn sicrhau bod dogfennau'n cael eu cynhyrchu'n ddwyieithog yn unol â Safonau'r Gymraeg.

Cwestiwn 16 - A oes gennych unrhyw sylwadau wrth ystyried a allai'r cynigion gael eu llunio neu eu diwygio mewn modd sy'n golygu eu bod yn cael effeithiau cadarnhaol, neu effeithiau llai anffafriol, ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg?

⁹ TAN 20: <https://gov.wales/topics/planning/policy/tans/planning-and-the-welsh-language/?lang=cy>

Yn yr un modd â Chwestiwn 15, roedd mwyafrif yr ymatebwyr un ai heb nodi barn bendant neu heb gynnig sylwadau. O'r tri ymatebydd a wnaeth sylwadau, mae eu barn wedi'i dangos isod.

Mae'r sylwadau ac enghreifftiau canlynol yn adlewyrchu'r farn a gyflwynwyd gan ymatebwyr mewn perthynas â'r cynllun drafft:

"There is insufficient evidence at this strategic level to provide a response."

"Integration with LDPs will be important for the Welsh language and the impact any proposals may have on communities".

"... this is not an appropriate plan to include Welsh Language Requirements in, given existing legislation intended to directly address this issue for all development."

"All proposals that adhere to the Marine Plan should include an acceptable methodology on how they'll give positive effects for persons using the Welsh Language. The marine plan should also support proposals with example methods on how to do this."

Gyda golwg ar yr ymatebion, byddwn yn parhau i weithio gyda rhanddeiliaid i adnabod cyfleoedd i gael effeithiau cadarnhaol neu effeithiau llai niweidiol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg drwy ganllawiau ar bolisi a gweithredu.

6 Y camau nesaf

6.1. Hoffai Llywodraeth Cymru ddiolch i bawb a ddarparodd adborth ac a ymatebodd i'r ymgynghoriad am roi o'u hamser ac am eu cyfraniadau yn ystod cyfnod yr ymgynghoriad.

6.2. Mae'r ddogfen Crynodeb o Ymatebion hon yn darparu trosolwg lefel uchel ar yr ymatebion a gafwyd ac ar ein barn gychwynol am yr ymatebion.

6.3. Bydd swyddogion polisi yn ystyried yr ymatebion ac yn trafod opsiynau er mwyn delio ag unrhyw bryderon a godwyd. Byddwn hefyd yn gweithio gyda'r Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid Cynllunio Morol i ystyried y ffordd orau i ddatblygu'r cynllun terfynol.

6.4. Bydd yr Ysgrifennydd Cabinet yn cyhoeddi datganiad yn hydref 2018 yn nodi sut mae'n bwriadu symud ymlaen â CMCC .

6.5. Caiff CMCC ei fabwysiadu pan fydd Gweinidogion Cymru (gyda chytundeb yr Ysgrifennydd Gwladol mewn perthynas â swyddogaethau a gadwyd) yn penderfynu cyhoeddi'r cynllun.

Cyhoeddir y cynllun cyn gynted ag y gellir ar ôl ei fabwysiadu ynghyd â datganiadau am bob un o'r canlynol (Adran 15(7)):

- (a) unrhyw addasiadau sydd wedi'u gwneud i'r cynigion a gyhoeddwyd yn y drafft ar gyfer ymgynghori,
- (b) y rhesymau am yr addasiadau hyn,
- (c) os yw unrhyw argymhellion a wnaed gan unrhyw berson annibynnol a benodwyd o dan baragraff 13 (CMCC) heb gael eu gweithredu yn y cynllun morol, y rhesymau am beidio â gweithredu'r argymhellion hynny.

Atodiad 1

Rhestr o'r ymatebwyr

12 o unigolion ynghyd â'r 74 o sefydliadau canlynol:

- Adran Amaethyddiaeth, yr Amgylchedd a Materion Gwledig (DAERA NI)
- Adran Polisi Cynllunio, Strategaeth Lleodedd, Cyngor Caer a Gorllewin Swydd Gaer
- Adran Tai, Cynllunio a Llywodraeth Leol, Gweriniaeth Iwerddon
- Afonydd Cymru
- Associated British Ports
- Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro
- Awdurdod Pysgodfeydd a Chadwraeth y Glannau Dyfnaint a Hafren
- BirdWatch Ireland
- Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru (CBHC)
- Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur (JNCC)
- Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC)
- Cyngor Abertawe
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
- Cyngor De Swydd Gaerloyw
- Cyngor Dinas Casnewydd
- Cyngor Sir Benfro
- Cyngor Sir Caerfyrddin
- Cyngor Sir Ceredigion
- Cyngor Sir Swydd Gaerloyw
- Cymdeithas Cynhyrchwyr Agregau Morol Prydain (BMAPA)
- Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC)
- Cymdeithas Rheoli Gorchymyn Pysgodfa Afon Menai (MSFOMA)
- Cymdeithas Saethu a Chadwraeth Prydain (BASC)
- Cymdeithas yr Hostelau Ieuenctid (YHA)
- Cyswllt Amgylchedd Cymru (WEL)
- Ecotricity
- Ffederasiwn Cenedlaethol Cymdeithasau Pysgotwyr (NFFO)
- Ffederasiwn Genweirwyr Môr Cymru (WFSA)
- Fforwm Arfordir Gogledd Orllewin Lloegr
- Fforwm Trafnidiaeth Gogledd Sir Benfro
- Glamorgan-Gwent Archaeological Trust Cyf (GGAT)
- Grŵp Awdurdodau Perthnasol Ardal Cadwraeth Arbennig Sir Benfro Forol
- Grŵp Cynllunio Strategol De-ddwyrain Cymru (SEWSPG)
- Grŵp Defnyddwyr a Datblygwyr Gwely'r Môr (SUDG)
- Grŵp Porthladdoedd Cymru
- Her Cymru
- Inland Fisheries Ireland (IFI)
- Ligue pour la Protection des Oiseaux (LPO)
- Llywodraeth yr Alban

- National Grid
- Natural England (NE)
- Ørsted Power UK (Cyf)
- Partneriaeth Aber Hafren
- Pembrokeshire Tourism
- Porthladd Aberdaugleddau
- Prifysgol St Andrews
- Ramblers Cymru
- Sefydliad Peirianeg, Gwyddoniaeth a Thechnoleg Forol
- Sefydliad Siartredig Rheoli Dŵr a'r Amgylchedd (CIWEM) Cymru
- Sefydliad y Peirianwyr Sifil: Cymru
- Siambr Fasnach a Thwristiaeth Abergwaun ac Wdig
- Siambr Forgludiant y DU
- The Bristol Port Company
- The Port of Mostyn Cyf
- Tidal Lagoon Power
- Wave Hub Cyf
- Whale and Dolphin Conservation (WDC)
- WWF Cymru
- Y Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Amgylcheddol yng Nghymru
- Y Gymdeithas Cadwraeth Forol (MCS)
- Y Gymdeithas Cebiau Tanfor Ewropeaidd
- Y Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar (RSPB)
- Y Gymdeithas Hwyllo Frenhinol (RYA) ac RYA Cymru Wales
- Ymddiriedolaeth Archaeolegol Dyfed
- Ynni Môr Cymru
- Yr AC dros Aberconwy
- Yr Ymddiriedolaeth Arbed Ynni
- Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol
- Y Rheoleiddiwr Petrolewm Alltraeth ar gyfer yr Amgylchedd a Datgomiysynu, Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol (OPRED, BEIS)
- Y Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol yng Nghymru (RTPI Cymru)
- Y Sefydliad Rheoli Morol (MMO)
- Y Sefydliad Rheoli Pysgodfeydd (IFM)
- Ystad y Goron